**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Tachwedd 2016

Annwyl Nick

**Dyled hanesyddol Llywodraeth Cymru**

Fe fyddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid, fel rhan o'i waith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18, wedi cael gwybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol am ddyled hanesyddol a etifeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y ddyled sydd heb ei thalu, o ganlyniad i fenthyca ar gyfer yr uno ag Awdurdod Datblygu Cymru, ychydig dros £11 miliwn (£11.406 miliwn) yn 2015-16. Mewn tystiolaeth lafar dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y ddyled hon ar gyfradd log o tua 15%[1].

Mae'r Pwyllgor wedi cyfeirio at y ddyled hanesyddol hon yn ei adroddiad ar y gyllideb ddrafft. Mae hefyd wedi cytuno i dynnu sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at hyn os hoffech roi unrhyw ystyriaeth bellach i'r mater hwn o ran y gwerth am arian y mae'n ei gynrychioli.

[1] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion, 24 Tachwedd 2014, paragraff 282.

Cofion cynnes

Simon Thomas

Cadeirydd